Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CAERSŴS I LANTWYMYN, POWYS) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470 rhwng Caersŵs a Glantwymyn, Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad mewn grym, yn ysbeidiol, rhwng 08:00 o'r gloch ar 29 Chwefror 2016 hyd 18:00 o'r gloch ar 31 Mai 2016 neu hyd nes caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 rhwng ei chyffordd â chylchfan yr A489 wrth Moat Lane, Caersŵs a'i chyffordd â chylchfan yr A489 yng Nglantwymyn. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd yn ystod y cyfnodau hyn.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A470 TRUNK ROAD (CAERSWS TO CEMMAES ROAD, POWYS) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 201-

THE WELSH MINISTERS propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Caersws and Cemmaes Road, Powys.

It is expected that the restrictions and prohibition will be in force, intermittently, from 08:00 hours on 29 February 2016 until 18:00 hours on 31 May 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of the restrictions and prohibition will be displayed approximately 2 weeks before the start of any works.

The effect of the proposed Order will be to temporarily impose a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A470 between its roundabout junction with the A489 at Moat Lane, Caersws and its roundabout junction with the A489 at Cemmaes Road. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE